**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 144 – Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed (D)

**Nid oes angen bod yn berffaith, Bronwen Lewis**

Nid oes angen bod yn berffaith,
Cael pob treiglad bach yn iawn,
Ceisio siarad mewn ffordd ffformal,
Neu mewn brawddegau llawn,

Nid oes angen ymarfer gartref,
Gan mai'r ymarfer gorau sydd,
Yw siarad gyda'n gilydd,
Mewn pa bynnag ffordd sy'n wir,

Dy iaith di sy'n bersonol,
Yr iaith a glywes di,
Yn gegin brysur Mamgu,
Yn yr ysgol, neu y tŷ,

Felly paid a phoeni cariad,
Am beidio fod yn berffaith,
Gan fod cenedl heb galon,
Yn genedl heb iaith.